Min y Traeth Tymor yr Hydref 2018

Bwletin i rieni Ysgol Eifionydd **www.ysgoleifionydd.org** **Rhifyn : 8**

Gair gan y Pennaeth: Braf yw gweld blwyddyn 7 wedi setlo cystal, ac rwy'n gobeithio iddynt fwynhau eu misoedd cyntaf yn Ysgol Eifionydd. Am y tro cyntaf ers blynyddoedd gwelwyd niferoedd yr ysgol yn codi o 365 i 380. Cafwyd sawl ymweliad yn ystod y tymor; diolch arbennig i'r Frigâd Dân a'r Heddlu am amlygu peryglon lleol a thu hwnt a phwysigrwydd cadw'n ddiogel. Roedd yn fraint hefyd croesawu ein cyn-ddisgyblion fel ymgeiswyr ar gyfer etholiad Senedd Ieuenctid Cymru a hoffwn longyfarch Ifan Price yn dilyn ei ethol fel aelod ar gyfer Dwyfor-Meirionnydd. Mewn cyfnod o gwtogi ar wasanaethau lleol roedd yn braf iawn cael derbyn cymorth Mrs. Nia Rees a chynnig *Gwobr Dug Caeredin* i rai o'r disgyblion. Roedd hefyd yn braf i groesawu Miss Eleri Trythal o gynllun *Trobwynt* a diolch iddi am y gwaith amhrisiadwy wrth gefnogi'r Cynllun *Anogaeth* newydd (gweler isod). Yn olaf hoffwn ddiolch i chi am eich cydweithrediad wrth i'r ysgol symud i'r system ddi-arian Sirol. Dylai'r system fod yn gymorth o ran hybu bwyta'n iach, arbed rhag alergedd, cadw'r ddarpariaeth Prydau Ysgol Di-dal yn ddienw a gobeithio hwyluso'r broses o dalu. Yn olaf hoffwn ddiolch am rodd hael iawn cyn ddisgybl o'r ysgol hon sef Mrs. Parker o £2,000 tuag at lyfrau ysgol. Nadolig Llawen i chwi oll.

Dewi Bowen

Dyddiau Pwysig

- **18 Rhagfyr** – Cyngerdd Nadolig
- **20 Rhagfyr** – Diwrnod Swmperi 'Dolig
- **20 Rhagfyr** – Ras Sion Corn
- **Ysgol yn cau 20/12/18 ac ail agor 7/01/19**
- **Ionawr 2019 – TGAU** – TGAU Llenyddiaeth Cymraeg
- **22 Ionawr 2019** – Noson Rieni Bl.11
- **10 Chwefror 2019** – Noson Rhieni Bl.10

Noson Agored Bl.5 a 6: Ar y 23ain o Hydref croesawyd rhieni a disgyblion Bl.5 a 6 i'r Noson Agored. Cawsant gyflwyniad gan y Pennaeth a chyfle i fynd o amgylch yr ysgol yn ymweld â'r gwahanol adrannau. Bu Macey Thomas, Cadi Mair Roberts a Mali Davies yn brysur yn gwerthu raffl i godi arian tuag at yr elusen Macmillan. Llongyfarchiadau i deulu Louise Hughes o Ysgol Beddgelert a theulu Cadi Mair a Jac Arthur o Ysgol Eifionydd ar ennill y gwobrau.

Bore Coffi Macmillan: Cynhaliwyd bore coffi hynod lwyddiannus yn yr ysgol er mwyn codi arian ar gyfer elusen Macmillan. Rhwng y raffl a'r bore coffi llwyddwyd i godi £202.00 ar gyfer yr elusen teilwng hwn. Diolch yn fawr i bawb a gyfranodd.

Gwobr Goffa Mary Vaughan Jones: Cafwyd Seremoni i wobrwyo Gareth F. Williams ym Mhortmeirion yn ddiweddar. Cyflwynwyd gwobr Goffa Mary Vaughan Jones am lenyddiaeth i blant i deulu'r awdur. Gyda Bethan Gwanas yn arwain y noson roedd 6 o ddisgyblion o flwyddyn 9 Ysgol Eifionydd yn cymryd rhan. Bu Lewis Evans a Bedwyr Puw yn darllen rhan o O Ddawns i Ddawns. Holly Jones a Megan Thomas yn actio rhan o Adref Heb Elin a Macy Thomas, Cadi Roberts, Mali Davies ac Ariana Poljakovic yn darllen tamaid o Y Dyn Gwyrdd.

Roedd hi'n noson arbennig ac yn deimladwy dros ben. Diolch i'r Cyngor Llyfrau am eu caredigrwydd yn cyflwyno bocs o lyfrau gan yr Awdur i'r ysgol a diolch i Nigel Hughes am y llun.

Chill Factor – Manceinion

Dydd Iau, Tachwedd yr 8fed trefnodd yr Adran Addysg Gorfforol daith i 40 o ddisgyblion yr ysgol i Chill Factor, Manceinion. Pwrpas y daith oedd cael gwers sgio o 2 awr ar gyfer y disgyblion, er mwyn eu paratoi at y daith sgio i Risoul, Ffrainc yn ystod hanner tymor Chwefror 2019. Roedd y diwrnod yn un llwyddiannus a phawb wedi mwynhau.

Ystafell Y Cob

Mae ystafell newydd wedi ei hagor yn yr ysgol sy'n cynnig amgylchedd ddiogel a chyfforddus er mwyn cynnal sesiynau Anogaeth yn yr ysgol. Fe'i henwyd yn Ystafell y Cob. Bydd y Staff yn 'Ystafell y Cob' yn canolbwyntio ar addysgu grwpiau o blant sgiliau emosiynol a chymdeithasol gyda ffocws hefyd ar lythrennedd, rhifedd a chyfathrebu.

Diolch i rai o'r genod a aeth i ganu carolau i Tesco ac i gartref Bodawen.

Ymgyrch Nadolig 2018. Rydym fel ysgol wedi bod yn ceisio casglu 1000 o eitemau ar gyfer y Banc Bwyd lleol erbyn y Nadolig. Isod mae Ioan Richards, Kelvin Humphreys ac Elin Roberts sydd wedi bod yn helpu Mrs. Miriam Amlyn i gyfri'r nwyddau mae'r ysgol wedi ei dderbyn.

Llwyddwyd i gasglu **849** o eitemau i fanciau bwyd lleol sy'n gwasanaethu'r ardal – Banc Bwyd Blaenau Ffestiniog a Phwllheli erbyn wythnos olaf y tymor – **Diolch i bawb a gyfranodd.**

Staff: Dymunwn ymddeoliad hapus i Mrs. Sharon Roberts – Gwyddoniaeth a SENCO ac i Mr. Medwyn Williams, Pennaeth Mathemateg ac estynwn groeso cynnes i Mrs. Mary Baillot sydd wedi dechrau ar ei swydd newydd fel Pennaeth Mathemateg yn yr ysgol. Dymuniadau gorau i Mr. Gareth Hughes ar gael ei benodi yn Bennaeth Cerdd yn Ysgol Dyffryn Nantlle a llongyfarchiadau i Miss Llio Dudley ar gael ei phenodi i ddysgu Cerdd CA3 a Mr. Emyr Rhys i ddysgu Cerdd CA4. Llongyfarchiadau mawr i Ms. Sioned Williams ar enedigaeth Morgan a chroeso i Miss Alaw T. Roberts a fydd yn llenwi cyfnod mamolaeth Ms. Williams. Dymuniadau gorau i Miss Gwenno Gibbard ar ei phriodas yn yr haf â Ben Bolton ac hefyd i Miss Catrin Elan ar ei phriodas yn ddiweddar â Ben Roberts. Dymunwn bob hausrwydd i'r ddau gwpl. I gloi dymunwn longyfarch Miss Llio Dudley ar ei dyweddiad â Gwion Roberts.

Diwrnod Plant Mewn Angen – 16 Tachwedd, 2018

Yn unol a'r arfer cafodd y disgyblion gyfle i fwynhau diwrnod yn gwisgo dillad o'u dewis hwy. Llwyddwyd i godi £278 tuag at yr elusen poblogaidd yma.

BYDIS

Cynllun hybu cefnogaeth gan ddisgyblion blwyddyn 10 ar gyfer disgyblion ifancach sydd angen cymorth. Mae'r bydis yn cynnig sesiynau mentora un i un ac maent hefyd wedi derbyn hyfforddiant ar sut i gynghori mewn meysydd fel:

- Ymddygiad
- Bwlio
- Unigrwydd

DATBLYGU MEDDYLFRYD TWF

Fel rhan o broject Sirol bydd yr ysgol yn cydweithio i ddatblygu 'meddylfryd o dwf' yn y gwersi er mwyn annog disgyblion i ymdrechu i gyflawni eu gwaith gorau ac i'w hannog i ddyfalbarhau er mwyn llwyddo. Bydd y disgyblion yn cael eu harwain i ddeall sut maent yn dysgu, i ddefnyddio dysgu blaenorol ac i chwilio am ffyrdd eraill o gyflawni tasgau os nad ydy eu hymdrechion cyntaf yn llwyddiannus. Bydd blwyddyn 8 yn derbyn gwersi meddylfryd twf fel rhan o'u darpariaeth ABaCh.

Fforwm Rhieni – 2il Ebrill, 2019 – 6.00
Llyfrgell yr ysgol.